**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

26 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn gytundebau masnachol yn ystod y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Cytundeb rhwng y DU a Rwanda ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer creu, cynnal a gorfodi partneriaeth rhwng y DU a Rwanda i ymdrin ag unigolion sydd wedi'u hadleoli o'r Deyrnas Unedig i Rwanda, gan gynnwys ystyried ceisiadau am statws fel ffoadur a phenderfynu ar y ceisiadau hyn.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, a osodwyd ar 16 Ionawr 2024, mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y ddeddfwriaeth ddomestig a fydd yn cael ei defnyddio i roi effaith gyfreithiol i'r cytundeb yn y DU, gan gynnwys *Deddf Ymfudo Anghyfreithlon 2023*, y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad iddi ym mis Mehefin 2023. Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bwriad Prif Weinidog y DU i gyflwyno deddfwriaeth newydd i gadarnhau diogelwch Rwanda fel trydedd wlad. Yn sgil hynny, cafodd y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)* ei gyflwyno yn Senedd y DU ar 7 Rhagfyr 2023.

Mae'r cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef mewnfudo a lloches, sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Er efallai na fydd unrhyw oblygiadau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r cytundeb hwn, rydym yn deall y gallai'r cytundeb, yn ogystal â'r *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)*, fod â goblygiadau i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sydd wedyn yn cael eu hadleoli i Rwanda.

Gyda hynny mewn golwg, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- mwy o wybodaeth am eich safbwynt ar y cytundeb a'r *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)*;
- eich barn ar faterion sy'n gysylltiedig â meysydd penodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn; er enghraifft, rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE;
- eich barn ar rwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel mewn perthynas â'r cytundeb hwn, y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)* a'r *Ddeddf Ymfudo Anghyfreithlon 2023*, y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad iddi ym mis Mehefin 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd